

202- Rhif (Cy.)

202- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A494
(Rhyd-y-main, Gwynedd) (Terfyn
Cyflymder 40 mya Rhan-amser)
202-

The A494 Trunk Road
(Rhydymain, Gwynedd) (Part-time
40 mph Speed Limit) Order 202-

Gwnaed *** 202-
Yn dod i rym *** 202-

Made *** 202-
Coming into force *** 202-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A494, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ar ôl rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A494 trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(c), 84(1A) and 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), after giving public notice of their intention to do so and after consultation with the Chief Officer of North Wales Police, make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Rhyd-y-main, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 mya Rhan-amser) 202- a daw i rym ar **** 202-.

1. The title of this Order is the A494 Trunk Road (Rhydymain, Gwynedd) (Part-time 40 mph Speed Limit) Order 202- and it comes into force on **** 202-.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw; ac

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn Rhyd-y-main, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 270 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth ym mhen gorllewinol Rhyd-y-main hyd at bwynt 215 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth ym mhen dwyreiniol Rhyd-y-main.

Cymhwyso

4. Ni fydd y cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

202-

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director; and

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road at Rhydymain, Gwynedd that extends from a point 270 metres west of the centre-point of its junction with the unclassified road at the western end of Rhydymain to a point 215 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road at the eastern end of Rhydymain.

Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

202-

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (RHYD-Y-MAIN, GWYNEDD) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA RHAN-AMSER) 202-

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd ar gefnffordd yr A494 yn Rhyd-y-main, Gwynedd mewn cysylltiad â symudiadau cerddwyr ger Ysgol Ieuan Gwynedd.

Nid yw Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhyd-y-main yn weladwy iawn i draffig y gefnffordd gan ei bod wedi ei gosod yn ôl oddi wrth y gefnffordd gyfagos. Mae'r darn perthnasol o'r gefnffordd ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i'r terfyn cyflymder cenedlaethol. Bwriedir cyflwyno terfyn cyflymder o 40 mya rhan-amser yng nghyffiniau'r ysgol a fydd yn gymwys am gyfnodau cyfyngedig yn ystod y dydd yn ystod y tymor ysgol, pan fydd arwyddion traffig yn dangos hynny. Bydd y terfyn cyflymder cenedlaethol yn parhau mewn grym ar bob adeg arall.

Bwriedir i'r terfyn cyflymder o 40 mya hybu diogelwch cerddwyr yn ystod y diwrnod ysgol a'i gwneud yn fwy diogel i'r cerbydau sy'n troi i mewn i'r 2 gyffordd i'r pentref, ac allan ohonynt, ac felly'n lleihau'r tebygolrwydd o wrthdrawiadau.

Ystyriwyd a fyddai terfyn cyflymder o 20 mya yn briodol. Fodd bynnag, gan nad yw cerddwyr yn mynd ar y gefnffordd i gyrraedd yr ysgol, barnwyd na fyddai terfyn cyflymder o 20 mya yn briodol.

THE A494 TRUNK ROAD (RHYDYMALN, GWYNEDD) (PART-TIME 40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 202-

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is necessary to ensure the safety of road users on the A494 trunk road at Rhydymal, Gwynedd in connection with pedestrian movements near Ysgol Ieuan Gwynedd.

Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymal is not easily visible to trunk road traffic as it is set back from the adjacent trunk road. The relevant length of the trunk road is currently subject to the national speed limit. Introducing a part-time 40 mph speed limit in the vicinity of the school is intended to apply for limited periods during the day during school term time, when indicated by traffic signs. At all other times, the national speed limit will remain in force.

The 40 mph speed limit is intended to promote pedestrian safety during the school day and make it safer for vehicles turning into and out of the 2 junctions to the village thereby reducing the likelihood of collision.

Consideration has been given to whether a 20 mph speed limit would be appropriate, however as pedestrian movements for the school do not use the trunk road to reach the school, a speed limit of 20 mph was not deemed appropriate.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (RHYD-Y-MAIN, GWYNEDD) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA RHAN-AMSER) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn o gefnffordd yr A494 yn Rhyd-y-main, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 270 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth ym mhen gorllewinol Rhyd-y-main hyd at bwynt 215 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth ym mhen dwyreiniol Rhyd-y-main. Bydd y terfyn cyflymder o 40 mya yn weithredol yn rhan-amser a bwriedir iddo fod yn gymwys am gyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol pan fydd arwyddion traffig yn dangos hynny: bydd y terfyn cyflymder cenedlaethol presennol yn parhau mewn grym ar bob adeg arall.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 25 Mawrth 2020 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Cae Penarlâg, Dolgellau LL40 2YB neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1413803.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru erbyn 15 Ebrill 2020. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael eu hanfon ymlaen at drydydd partïon, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd partïon priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd ymchwiliad cyhoeddus yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

THE A494 TRUNK ROAD (RHYDYMAL, GWYNEDD) (PART-TIME 40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(c), 84(1A) and 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce a 40 mph speed limit on the length of the A494 trunk road at Rhydymal, Gwynedd that extends from a point 270 metres west of the centre-point of its junction with the unclassified road at the western end of Rhydymal to a point 215 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road at the eastern end of Rhydymal. The 40 mph speed limit will operate on a part-time basis and is intended to apply for limited periods of the day during school term time when indicated by traffic signs: at all other times the existing national speed limit will remain in force.

During a period of 21 days from 25 March 2020, a copy of the proposed Order, plan and Statement of Reasons for making the Order may be inspected, free of charge, during normal office hours at Gwynedd Council offices, Cae Penarlâg, Dolgellau LL40 2YB or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1413803.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by e-mail to Transportordersbranch@gov.wales by 15 April 2020. Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have provided and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a public inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of the draft Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government